

# Iesu a'r Ysgrythur

*“Onid ydych wedi darllen yr Ysgrythur hon: Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwn a ddaeth yn faen y gongl.” (adn. 10)*

## Beth am ddarllen Marc 12:1–12 ac yna myfyrio

Yr ydym yn ystyried pa fath o wybodaeth sydd angen ei hychwanegu at ddaioni, a'r hyn yr ydym yn honni yw mai gwybodaeth Feiblaidd sydd yn angenrheidiol. Rydym hefyd am ddweud fod y Beibl heddiw yn cael ei wawdio a'i wamalu, a bod y rhai sydd am feirniadu yn ein cyhuddo o hunanladdiad meddyliol pan ddywedwn wrthynt ein bod yn derbyn awdurdod y Gair.

Un o'r rhesymau am y ffordd yr ystyriwn y Beibl yw agwedd yr Arglwydd Iesu ei hun ymhob rhan o'i fywyd – ei agwedd foesol, ei drafodaethau gyda'r arweinwyr crefyddol, a dysgu ei ddisgyblion. Ei ofal pennaf oedd i fod yn ffyddlon i'r Ysgrythurau. Byddai'n cyfeirio at yr Ysgrythyrau yn gyson gan ofyn: “Sut all yr Ysgrythyrau gael eu cyflawni?” (Mathew 26:54), neu, “Onid ydych wedi darllen yr Ysgrythur?” Yr Hen Destament oedd ei faen prawf bob amser.

Gellir gofyn y cwestiwn: “Yr oedd Iesu yn derbyn yr Hen Destament, ond beth am y Newydd?” Wel, wrth gwrs, nid oedd y Testament Newydd wedi ei ysgrifennu yn ystod dyddiau Iesu ar y ddaear, ond caniatuodd le iddo gael ei ysgrifennu drwy arfogi ei apostolion i fod yn athrawon ei Eglwys a disgwyliai i'w bobl wrando arnynt. “Mae'r rhai sydd yn gwrando arnoch chi yn gwrando arnaf i,” meddai, “ac mae'r rhai sydd yn eich gwrthod chi yn fy ngwrthod i.” (Luc 10:16). Golyga hyn fod darostwng i ddysgeidiaeth yr apostolion yn yr Ysgrythur yn rhan o'n darostyngiad i Iesu fel Arglwydd, oherwydd nid yw myfyriwr uwchlaw ei athro (Luc 6:40). Ni fedrwn honni bod yn ddilynwyr i Iesu Grist a gwrthod ei agwedd at Air Duw. Rwy'n gwybod fod yna bobl sydd am honni perthynas â Iesu ond maent yn gwrthod awdurdod y Beibl. Ond yng ngeiriau John Stott, nid yw y math yma o ddarostyngiad dewisol yn ddarostyngiad derbyniol.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 4:1–11; 15:1–9

Luc 4:14–27; 17:26–37

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fu i Iesu osgoi pechod?
2. Sut fu i Iesu ddefnyddio'r Ysgrythur?

## Gweddi

Dad tragwyddol, os oes yna unrhyw amheumon yn fy nghalon gyda golwg ar wirionedd a dibynolrwydd dy Air di, yna caniatâ i'r gwirionedd yr wyf wedi myfyrio arno heddiw dawelu yr amheumon hynny. Roedd dy Fab yn credu dy Air, rwyf finnu'n credu dy Air. Amen.